



Cronfa Awtiaethyddol Ewrop ar
erfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio

Nodiadau Cyfarwyddyd

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

CYNNWYS	PARAGRAFF
Cyflwyniad	1
Manylion Cyswllt	9
Is-fesurau a gwmpesir gan y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio	10
Amcanion Strategol a Thematig	11
Mesur 16.2	13
Pwy all wneud cais	17
Gweithgareddau Cymwys	22
Gweithgareddau Anghymwys	39
Costau Cymwys	40
Costau Anghymwys	41
Mesur 16.3	42
Pwy all wneud cais	46
Gweithgareddau Cymwys	51
Gweithgareddau Anghymwys	60
Costau Cymwys	63
Costau Anghymwys	64
Mesur 16.4	65
Pwy all wneud cais	75
Gweithgareddau Cymwys	79
Gweithgareddau Anghymwys	88
Costau Cymwys	89
Costau Anghymwys	90

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

Mesur 16.6	93
Pwy all wneud cais	105
Gweithgareddau Cymwys	108
Gweithgareddau Anghymwys	109
Costau Cymwys	110
Costau Anghymwys	111
Cyfradd uchaf y grant a throthwy uchaf y grant	115
Cymorth Gwladwriaethol	126
Themâu trawsbynciol	130
Dewis prosiectau llwyddiannus	134
Gofynion Allweddol	135
Sut mae gwneud cais	142
Amodau'r grant	156
Talu'r grant	161
Monitro prosiectau	169
Diwedd Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio	172
Y Weithdrefn Apelio	173
Y Weithdrefn Gwyno	175

Atodiad A: Disgrifiad o Flaenoriaethau a Meysydd Ffocws

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

CYFLWYNIAD

1. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn yn egluro'r **Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (CSCDS)** a'r math o brosiectau a gweithgareddau a all fod yn gymwys am gymorth grant. Mae'r cynllun yn elfen bwysig o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ac mae'n cyflawni o dan Fesur 16 (Erthygl 35 o Reoliad (UE) 1305/2013).
2. Nodwch fod y ddogfen gyfarwyddyd hon yn cyflwyno amlinelliad o'r CSCDS a'r ffordd i'w weithredu, y rheolau manwl ar gyfer cymhwysedd gweithgareddau a/neu'r gwariant a allai newid yn ystod oes y Rhaglen.

3. **Y weledigaeth:**

Dylai busnesau, sefydliadau a chymunedau gydweithio i fod yn fwy cydnerth drwy fynd i'r afael â materion fel:

- tlodi gwledig
- cynaliadwyedd ariannol
- newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd
- tlodi mewn gwaith ac allgau cymdeithasol.

4. **Egwyddorion:**

Bydd CSCDS yn:

- meithrin gallu a hyder
- gweithredu fel catalydd ar gyfer ymyriadau pellach
- datblygu gweledigaethau a rennir drwy ddulliau ac arferion amrywiol
- adeiladu ar egwyddorion LEADER – arloesedd a gweithredu cynlluniau peilot
- defnyddio busnesau, sefydliadau, pobl a'n hadnoddau naturiol yn effeithiol i hybu lles cymunedol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i genedlaethau'r dyfodol
- datblygu dull o gydweithio i hyrwyddo integreiddio fertigol a llorweddol yn yr economi wledig ehangach.

5. Bydd CSCDS yn gweithio tuag at gyflawni 6 o'r Blaenoriaethau ar gyfer Datblygu Gwledig drwy:

- gefnogi cydweithio ar gynhyrchion newydd, prosesau newydd neu arferion newydd, yn cynnwys y rhai sy'n gofyn am newidiadau technoleg
- helpu gweithredwyr bychain mewn ardaloedd gwledig i sicrhau arbedion maint gyda'i gilydd nad yw'n bosibl os ydynt yn gweithredu ar eu pen eu hunain drwy gynnal y llwyth gwaith cydweithredol ar drefnu prosesau cydweithio, rhannu cyfleusterau ac adnoddau
- cynyddu proffidioldeb a chydnerthedd busnesau bach a chanolig unigol sy'n cymryd rhan yn y camau gweithredu drwy gydweithio llorweddol a fertigol

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

ymysg gweithredwyr y cadwyni cyflenwi ar gyfer sefydlu a datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol

- rheoli priddoedd i helpu i warchod stociau carbon a lleihau erydiad
 - gwella ansawdd dŵr, lleihau dŵr ffo a rheoli dŵr i helpu i leihau'r perygl o lifogydd
 - gwarchod a gwella bywyd gwylt a bioamrywiaeth
 - rheoli a diogelu tirweddau a'r dirwedd hanesyddol
 - cefnogi dulliau ar y cyd i liniaru neu addasu i newid yn yr hinsawdd
 - cefnogi dulliau ar y cyd o gyflawni prosiectau amgylcheddol ac arferion amgylcheddol parhaus
 - darparu biomas i'w ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu bwyd ac ynni ac mewn prosesau diwydiannol – nid yw'n mynd mor bell â chefnogi cynhyrchu
 - cefnogi astudiaethau dichonoldeb i brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol
 - cefnogi camau cydweithredol o natur gymdeithasol yn bennaf sy'n defnyddio ffermio i sicrhau manteision amrywiol i gymdeithas drwy gydweithio, ac felly hefyd yn cynnig cyfleoedd incwm newydd i deuluoedd sy'n ffermio.
6. Diben CSCDS yw sicrhau bod pethau newydd yn digwydd. Ni ellir ei ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau ar y cyd sydd eisoes yn digwydd ond gallai gefnogi grŵp cyfredol o endidau cydweithredol sy'n cyflawni prosiect newydd ar y cyd. Fel rhan o'r uchod gall hefyd gefnogi'r broses o fabwysiadu arferion ffermio cyfredol, ymchwil pan fydd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â phrosiect ymarferol, a gweithgareddau arddangos pan fyddant yn gysylltiedig â cham terfynol profi / dilysu technoleg.
7. Bydd yn darparu cymorth ar gyfer cwmpas llawn y prosiect o'r camau cychwynnol i gyflawni a lledaenu a gwerthuso ac felly bydd angen paratoi cynllun cymharol fanwl oni bai y gwneir cais ar gyfer y cam cyntaf yn unig.
8. Bydd CSCDS yn cefnogi'r gwaith o greu rhwydweithiau a chlystyrau newydd. Mae clwstwr yn golygu grŵp o fentrau annibynnol – busnesau newydd, busnesau bach, canolig a mawr yn ogystal â chyrff cynghori a/neu sefydliadau ymchwil. Ei ddiben yw sbarduno gweithgarwch economaidd / arloesol drwy hyrwyddo rhyngweithio dwys, rhannu cyfleusterau a chyfnewid gwybodaeth ac arbenigedd, yn ogystal â chyfrannu'n effeithiol at drosglwyddo gwybodaeth, rhwydweithio a lledaenu gwybodaeth ymysg y mentrau yn y clwstwr. Mae cwmpas rhwydwaith yn ehangach. Byddai'n rhaid i'r rhwydwaith neu'r clwstwr gyflawni un neu fwy o brosiectau sy'n mynd i'r afael â'r categorïau a nodwyd uchod.

MANYLION CYSWLLT

9. MANYLION CYSWLLT POLISI CYMUNEDAU GWLEDIG LLYWODRAETH CYMRU – RHAGLEN DATBLYGU GWLEDIG 2014-2020

E-bost: CooperationScheme@wales.gsi.gov.uk

IS-FESURAU A GWMPESIR GAN Y CYNLLUN DATBLYGU CADWYNI CYFLENWIA CHYDWEITHIO

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

10. Mae CSCDS yn cwmpasu gweithgarwch sy'n ymwneud â'r is-fesurau canlynol o dan Fesur 16, fel y'u rhoddwyd ar waith yn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020:

- 16.1 cymorth i sefydlu a rhedeg grwpiau gweithredol Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer cynhyrchiant a chynaliadwyedd amaethyddol. Gweler y canllawiau ar wahân ar gyfer Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP)
- 16.2 cymorth i brosiectau peilot ac i ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd
- 16.3 cydweithio ymysg gweithredwyr bychain i drefnu prosesau gwaith ar y cyd a rhannu cyfleusterau ac adnoddau, ac i ddatblygu a marchnata twristiaeth
- 16.4 cymorth ar gyfer cydweithredu llorweddol a fertigol ymysg gweithredwyr yn y cadwyni cyflenwi a'r marchnadoedd lleol ac i hyrwyddo gweithgareddau mewn cyd-destun lleol sy'n gysylltiedig â datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol
- 16.5 cymorth ar gyfer gwaith ar y cyd a wneir gyda'r nod o liniaru neu addasu i newid yn yr hinsawdd, ac ar gyfer dulliau o gydweithio ar brosiectau amgylcheddol ac arferion amgylcheddol parhaus. Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy
- 16.6 cymorth ar gyfer cydweithio ymysg gweithredwyr yn y cadwyni cyflenwi er mwyn darparu biomas yn gynaliadwy i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu bwyd ac ynni ac mewn prosesau diwydiannol
- 16.9 cymorth i arallgyfeirio gweithgareddau ffermio i weithgareddau sy'n ymwneud â gofal iechyd, integreiddio cymdeithasol, amaethyddiaeth gyda chefnogaeth y gymuned ac addysg am yr amgylchedd a bwyd.

AMCANION STRATEGOL A THEMATIG

11. Mae'n rhaid i'r gweithgareddau o dan CSCDS fynd i'r afael ag o leiaf un o'r Meysydd Ffocws canlynol:

Bydd Is-Fesur 16.2 yn cyfrannu at:

Maes Ffocws 2. Gwneud pob math o amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol a gwneud ffermydd yn fwy hyfyw, gyda ffocws ar y meysydd canlynol:

2(a) Hwyluso'r broses o ailstrwythuro ffermydd sy'n wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd sy'n chwarae rhan fach yn y farchnad, ffermydd sy'n canolbwyntio ar y farchnad mewn sectorau penodol a ffermydd y mae angen iddynt arallgyfeirio'n amaethyddol.

2(b) Creu cyfleoedd i genhedlaeth newydd yn y sector amaethyddol.

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Maes Ffocws 6. Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tloedi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig, gyda ffocws ar y maes canlynol:

6(b) Meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig.

Ond hefyd:

6(a) Hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach a chreu swyddi.

6(c) Gwella mynediad at dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig, gwella'r defnydd a wneir ohonynt a gwella'u hansawdd.

Maes Ffocws 5. Hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau a chefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel sy'n medru gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth, gyda ffocws ar y meysydd canlynol:

5(b) Bod y diwydiant amaethyddol a'r diwydiant prosesu bwyd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

5(c) Hwyluso cyflenwi a defnyddio ynni adnewyddadwy, is-gynhyrchion, gwastraff, gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio-economi.

5(d) Lleihau allyriadau ocsid nitrad a methan sy'n deillio o amaethyddiaeth.

5(e) Meithrin gwaith i ddal a storio carbon ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth.

Bydd Is-Fesur 16.6 yn cyfrannu at:

Maes Ffocws 5. Hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau a chefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel sy'n medru gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth, gyda ffocws ar y maes canlynol:

5(c) Hwyluso cyflenwi a defnyddio ynni adnewyddadwy, is-gynhyrchion, gwastraff, gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio-economi.

Bydd Is-Fesur 16.9 yn cyfrannu at:

Maes Ffocws 6. Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tloedi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig, gyda ffocws ar y meysydd canlynol:

6(a) Hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach a chreu swyddi.

6(b) Meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig.

6(c) Gwella mynediad at dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig, gwella'r defnydd a wneir ohonynt a gwella'u hansawdd.

MANYLION PENODOL AR GYFER POB IS-FESUR

MESUR 16.1

12. Cefnogaeth i sefydlu a chynnal grwpiau gweithredol o'r EIP ar gyfer cynrychiant a chynaliadwyedd amaethyddol.

Gweler y canllawiau ar wahân ar gyfer Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP).

MESUR 16.2

Cymorth i brosiectau peilot ac i ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd.

13. Gall Mesur 16.2 gefnogi:

(a) prosiectau peilot

(b) datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sector amaethyddiaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth.

14. Mae treialu camau gweithredu a gwaith ar y cyd i ddatblygu arferion, cynhyrchion a thechnolegau newydd yn bont hanfodol rhwng camau gweithredu sy'n gysylltiedig â Gwybodaeth a Throsoglwyddo Gwybodaeth, ac arloesi yn y gweithle.

15. Nod M16.2, yn y pen draw, yw gwneud BBaChau unigol yn fwy proffidiol. Fodd bynnag, disgwylir hefyd y bydd cydweithio a rhannu canlyniadau gweithgareddau peilot yn dod â manteision ehangach i'r sectorau dan sylw drwy wella gwybodaeth a gwella'u hyder.

16. O dan M16.2, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth ariannol i helpu gweithredwyr bach i gynnal prosiectau peilot, i rannu'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hynny, ac i gydweithio ar gynhyrchion neu arferion newydd, gan gynnwys y rheini sy'n golygu bod angen newid technoleg.

PWY ALL WNEUD CAIS?

17. Gall y canlynol wneud cais am gymorth o dan **a) prosiectau peilot**:

- BBaCHau
- unig fasnachwyr
- partneriaethau
- cwmnïau cyfyngedig
- deiliad coedwigoedd, gan gynnwys cymdeithasau o berchnogion a choetiroedd cymunedol)

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

- sefydliadau addysg neu ymchwil
 - sefydliadau cymunedol neu sefydliadau yn y sector gwirfoddol (rhaid iddynt fod yn endid cyfreithiol).
18. Nid oes yn rhaid i'r rheini sy'n gwneud cais o dan a) uchod fod yn gysylltiedig â'r sector amaethyddiaeth, y sector coedwigaeth na'r sector bwyd ond mae'n rhaid i'r gweithgarwch y maent yn awyddus i'w dreialu gyfrannu at gyflawni amcanion a blaenoriaethau polisi datblygu gwledig.
Ni chaiff ymgeiswyr fod yn y sector pysgodfeydd neu ddyframaethu (oherwydd bod angen sicrhau cyfatebolrwydd â Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop).
19. O dan **b) datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sector amaethyddiaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth**; mae'n rhaid i o leiaf un o'r rheini sy'n cydweithio fod yn BBaCh sy'n gysylltiedig ag:
- amaethyddiaeth
 - y sector coedwigaeth neu'r sector bwyd (ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd neu ddyframaethu)
 - deiliad coedwigoedd, gan gynnwys cymdeithasau o berchnogion a choetiroedd cymunedol.
20. Caiff y sefydliadau eraill sy'n rhan o'r cydweithio fod yn:
- BBaChau
 - sefydliadau addysg neu ymchwil
 - grwpiau cymunedol
 - grwpiau gwirfoddol.
21. Ni chaiff ymgeiswyr fod yn fudiadau sydd mewn trafferthion, fel y diffiniwyd yn y canllawiau ar Gymorth Gwladwriaethol ar gyfer achub ac ailstrwythuro (2014/C 249/01).

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

22. Prosiectau peilot; dylid deall bod y term hwn yn cyfeirio at "brosiectau prawf". Wrth reswm, gall prosiect peilot fod yn rhan o broses "ddatblygu" fwy. Sylwer nad yw'r prosiectau peilot yn cael eu cyfyngu i unrhyw sector penodol; felly, gellid ystyried rhoi cymorth i brosiectau "arbrofol" sydd y tu allan i'r sector bwyd-amaeth a'r sector coedwigaeth ond sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau polisi datblygu gwledig. Pan ariennir prosiect peilot nad yw'n cynnwys cydweithio, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gytuno bod canlyniadau'r prosiect peilot hwnnw yn cael eu lledaenu.

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

23. Datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sector amaethyddiaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth.
24. Ysgogi – costau refeniw, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth, ar gyfer pobl (ysgogwyr) a fyddai'n broceru ac yn hwyluso gweithgareddau cydweithio ymhlith busnesau a/neu sefydliadau.
25. Hwyluso a Gweithredu – costau refeniw, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth, ar gyfer pobl a fydd yn rheoli ac yn cyflawni gweithgareddau yn uniongyrchol a/neu'n rhoi cymorth i fusnesau a/neu sefydliadau ac yn cefnogi gweithgareddau cydweithio. Gall hynny gynnwys y costau a dynnir gan y busnes neu'r sefydliad sy'n frocer arloesi ar gyfer y sefydliad, a hefyd gostau cyflawni'r gweithgareddau cydweithio.
26. Mentora – costau refeniw ar gyfer pobl sy'n gallu cynnig mathau penodol o gymorth i sefydliadau a grwpiau i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd eu hunain yng nghyd-destun gweithgareddau cydweithio. Mae hyn yn wahanol i hyfforddiant.
27. Hyfforddiant – costau refeniw i helpu partneriaid sy'n cydweithio i gael hyfforddiant na ellir ei ddarparu mewn unrhyw ffordd arall. Gall hyfforddiant o'r fath gael ei roi mewn lleoliad ffurfiol fel ystafell ddosbarth neu ystafell ddarlithio ond nid yw hynny'n fater o raid. Er mwyn i hyfforddiant fod yn weithgarwch cymwys, byddai'n rhaid i'r pynciau i'w trafod a chanlyniad arfaethedig yr hyfforddiant fod wedi cael eu pennu drwy gynnal asesiad sgiliau, a byddai'n rhaid hefyd fod wedi edrych ar y ddarpariaeth a fyddai ar gael eisoes.
28. Cyfathrebu a lledaenu – costau refeniw i helpu gyda gwaith cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau cydweithio arfaethedig; i helpu gyda'r gwaith o ledaenu gwybodaeth ymhlith y rhanddeiliaid allanol; i helpu gyda chyfathrebu o fewn a rhwng sefydliadau'r partneriaid sy'n cydweithio, ac i helpu i ledaenu canlyniadau terfynol y cydweithio.
29. Gwerthuso – un o ganlyniadau allweddol y gweithgareddau cydweithio a/neu'r prosiect peilot yw dysgu gwersi a chofnodi profiadau'r rheini sydd wedi bod yn gysylltiedig â nhw er mwyn helpu i lywio rhaglenni a phrosiectau yn y dyfodol. Felly, mae cost gwerthusiad allanol annibynnol o'r prosiect peilot a/neu'r gweithgareddau cydweithio yn gost gymwys.

Diffiniadau

30. Cyfeirio at **“brosiectau prawf”** y mae'r term a ddefnyddir ym mhwynt **(a) “prosiectau peilot”**. Gall prosiect peilot, wrth reswm, fod yn rhan o broses “ddatblygu” fwy.
31. Sylwer nad yw geiriad pwynt (a) yn cael ei gyfyngu i unrhyw sector penodol; felly, gellid ystyried rhoi cymorth i brosiectau "arbrofol" sydd y tu allan i'r sector bwyd-amaeth a'r sector coedwigaeth ond sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau polisi

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

datblygu gwledig.

32. O dan **(b) datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sector amaethyddiaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth**; gall y gair "arferion" gyfeirio, ymhlith pethau eraill, at arferion ffermio, e.e. cylchdroi cnydau, rheoli pridd neu gynnal a chadw perthi. O dan M16.2, gellir rhoi cymorth ar gyfer datblygu technegau / dulliau sydd, yn eu hanfod, yn addasu technolegau etc. sy'n bodoli eisoes fel y bo modd eu defnyddio mewn sefyllfaoedd lle nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.
33. "Costau uniongyrchol" yn y cyd-destun hwn yw costau sy'n codi yn uniongyrchol o weithgareddau'r prosiect yn hytrach nag o astudiaethau paratoadol, animeiddio neu gydgyssylltu parhaus. Mae'r ddarpariaeth hon yn cwmpasu ond ddim yn gyfyngedig i gostau buddsoddi.

"Datblygu" o'i gymharu ag "ymchwil"

34. Ni ellir defnyddio M16.2 i roi cymorth ar gyfer ymchwil nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw beth arall. Gall gweithgareddau datblygu sy'n cael cymorth o dan M16 fod yn gysylltiedig ag ymchwil sy'n cael cymorth drwy offerynnau eraill megis Horizon 2020 neu o ffynonellau eraill sy'n cyllido ymchwil. .
35. Er hynny, gellir defnyddio M16.2 i gyllido gweithgareddau ymchwil sy'n gysylltiedig ac yn cyd-fynd â phrosiectau ymarferol, yn benodol brosiectau sy'n cael eu cynnal gan grwpiau gweithredol Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP)(e.e. dadansoddi llwyddiannau a methiannau prosiectau, addasu atebion fel eu bod yn addas i gyd-destunau penodol o ran hinsawdd a strwythurau etc.).
36. Gall ymchwilwyr chwarae rhan werthfawr mewn grwpiau gweithredol, gan gydweithio ag aelodau eraill a mynd ati i helpu i gyflawni'r nodau a bennwyd ar gyfer prosiectau'r grŵp.

Prosiectau arddangos

37. Gellid, o bosibl, roi cymorth o dan M16.2 er mwyn "arddangos" technolegau etc. newydd os y gweithgarwch arddangos hwnnw yw rhan olaf y broses o brofi /dilysu technoleg, proses etc.
38. Mesur 1 Gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth (sy'n cael ei roi ar waith yng Nghymru gan Raglen Cyswllt Ffermio) yw'r lle priodol i gefnogi "gweithgareddau arddangos" sy'n codi ymwybyddiaeth am dechnolegau, technegau sy'n weithredol ac ar gael eisoes – nid gweithgareddau arddangos sy'n profi / dilysu prosiect yn ystod ei gam olaf.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

39. Mae nifer o weithgareddau nad ydynt yn gymwys i gael cymorth:
- cymorth ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn y busnesau neu'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau cydweithio

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

- cymorth ar gyfer gweithgareddau y gellir eu cyflawni drwy ddulliau eraill, megis y trefniadau sy'n bodoli eisoes er mwyn datblygu sectorau
- **nid** yw cymorth i gydgysylltu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu yn gymwys o dan y cynllun hwn. Bydd cymorth o'r fath yn cael ei roi drwy'r cynlluniau ar gyfer pysgodfeydd.

COSTAU CYMWYS

40. Gall cymorth o dan M16.2 CSCDS gynnwys:

- y costau rhedeg sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau cydweithio (nid holl gostau rhedeg y prosiect ond y costau rhedeg sy'n codi o'r "weithred" o gydweithio), yn benodol gost cyflogau cydgysylltwyr, ysgogwyr a hwyluswyr, gan gynnwys costau cysylltiedig megis teithio a chynhaliaeth
- mapio a dadansoddi bylchau; gan gynnwys costau cysylltiedig megis costau datblygu TG
- costau gweithrediadau (prosiectau) penodol yr ymgwymerir â hwy gan y cydgysylltydd/ysgogydd/hwylusydd neu unrhyw un arall sy'n bartner mewn prosiect peilot/gweithgaredd cydweithio (sy'n gysylltiedig â chynllun manwl)
- gweithgareddau hyrwyddo (cyfathrebu am weithgareddau'r prosiect).

D.S. Byddai costau sy'n gysylltiedig ag ysgogi yn cynnwys recrwtio pobl sy'n cymryd rhan mewn prosiect a'r rhwydweithio sydd ei angen rhyngddynt er mwyn diffinio'r prosiect yn ddigonol a sicrhau ei fod yn dechrau.

COSTAU ANGHYMWYS

41. **Nid** yw'r eitemau na'r mathau isod o wariant yn gymwys o dan yr adran hon o CSCDS:

- prynu tir sydd yn fwy na 10% o werth y prosiect cyfan
- prynu cerbydau ar gyfer cludo nwyddau yn allanol (megis lorïau, bysiau, faniau, minibysiau neu unrhyw fath arall o gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i gludo)
- unrhyw waith ffisegol ar safle neu unrhyw wariant arall cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw oddi wrth roddwr y grant
- gwaith dros dro nad yw'n **uniongyrchol** gysylltiedig â chyflawni'r prosiect
- costau cynnal a chadw adeiladau, peiriannau neu gyfarpar sydd gan y
- sefydliad eisoes
- cyfnewid eitemau am eitemau tebyg
- costau sy'n gysylltiedig â chontract lesio megis costau gwarantu sydd gan y lesydd, costau ariannu llog, gorbenion a thaliadau yswiriant

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

- costau sy'n gysylltiedig â threfnu benthyciadau, TAW a threthi eraill sy'n adenilladwy gan y buddiolwr, costau gweinyddol a chostau staff, neu iawndal a delir i drydydd partion am ddifeddu, etc.
- gorbenion a ddyrennir neu a ddosrennir ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na'r cyfraddau ar gyfer costau tebyg a dynnir drwy ddulliau cymaradwy eraill
- gwariant tybiannol
- taliadau am weithgarwch sy'n grefyddol a/neu'n wleidyddol ei natur
- dibrisiant, amorteiddiad a lleihad mewn gwerth asedau a brynwyd â chymorth grant Ewropeaidd
- darpariadau
- rhwymedigaethau digwyddiadol
- treuliau annisgwyl
- difidendau i gyfranddalwyr
- taliadau llog (oni bai eu bod o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol cymeradwy)
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o lesau cyllid, hurbwrcasu neu drefniadau credyd
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwy
- costau sy'n gysylltiedig â dirwyn cwmni masnachol i ben
- taliadau am bensiynau heb eu cyllido
- iawndal am golli swydd
- dyledion drwg sy'n deillio o fenthyciadau i gyflogeion, perchenogion, partneriaid, cyfarwyddwyr, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau am anrhegion a rhoddion
- adloniant personol (gan gynnwys alcohol)
- dirwyon a chosbau statudol
- trethi statudol (ac eithrio TAW anadferadwy)
- dirwyon ac iawndal troseddol
- treuliau cyfreithiol mewn cysylltiad ag ymgyfreitha
- TAW adenilladwy.

Os oes unrhyw ansicrwydd mewn unrhyw achos penodol, gellir cysylltu ag Uned Rheoli Cynlluniau i ofyn am gyngor.

MESUR 16.3

42. Cymorth a chydweithrediad ymysg cwmnïau bychain wrth drefnu prosesau gweithio ar y cyd, rhannu cyfleusterau ac adnoddau, a datblygu / marchnata twristiaeth.

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

43. Gall Mesur 16.3 gynorthwyo gyda gweithgareddau cydweithredu gan dynnu sylw at ddulliau arloesol rhwng o leiaf ddau gorff.

44. Nod M16.3 yn y pen draw yw sicrhau bod BBaChau unigol yn fwy proffidiol. Fodd bynnag, disgwylir hefyd y bydd y cydweithredu er mwyn trefnu arferion gweithio ar y cyd a rhannu cyfleusterau yn arwain at fanteision ehangach i'r sectorau dan sylw trwy gael mwy o wybodaeth a hyder o fewn y sectorau.

45.0 dan M16.3 mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth ariannol i annog datblygu arferion a phrosesau newydd mewn busnesau bychain gwledig, gan gynnwys gweithgarwch a chyfleusterau ar y cyd, gyda'r bwriad o wneud busnesau yn fwy effeithiol, a datblygu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth.

PWY ALL WNEUD CAIS?

46. Gallai'r rhai sy'n ymgeisio ar gyfer cymorth fod yn:

- busnesau BBaChau
- unig fasnachwr
- partneriaethau
- cwmnïau cyfyngedig
- perchnogion coedwigoedd (gan gynnwys cymdeithasau o berchnogion a choetiroedd cymunedol)
- sefydliadau addysgol neu ymchwil
- sefydliadau cymunedol neu'r sector gwirfoddol (rhaid iddynt fod yn endyd cyfreithiol)

47. Mae'n rhaid i'r busnesau a'r sefydliadau sy'n cydweithredu fod yn rhan o'r cadwyni cyflenwi ar gyfer y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth, bwyd ac/neu lletygarwch.

48. Ni chaiff ymgeiswyr fod o fewn y sector pysgodfeydd a dyframaethu (oherwydd yr angen i sicrhau eu bod yn ategu rhinweddau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

49. Nid yw'n bosibl i'r ymgeiswyr gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru neu berchnogion a rheolwyr ardaloedd coedwigoedd cyhoeddus eraill os nad oes les hirdymor neu gytundeb gyda chymuned, yn yr achos hwnnw y gymuned fydd y buddiolwr.

50. Ni all ymgeiswyr fod yn ymgymeriadau sydd mewn anawsterau fel a ddiffinnir yn y canllawiau ar Gymorth Gwladwriaethol ar gyfer achub ac ailstrwythuro (2014/C 249/01).

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

51. Ysgogi – costau refeniw ar gyfer pobl (ysgogwyr) a fyddai yn trefnu ac yn hwyluso gweithgareddau cydweithredol ymysg busnesau ac / neu sefydliadau, gan gynnwys costau cysylltiedig megis teithio a chynhaliath.

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

52. Hwyluso a Gweithredu – costau refeniw ar gyfer pobl, gan gynnwys costau teithio a chynhaliaeth, fydd yn rheoli ac yn darparu gweithgarwch yn uniongyrchol ac / neu weithgareddau gan sefydliadau a chydweithredu i roi cefnogaeth. Gall hyn gynnwys y costau sy'n rhaid eu talu gan y busnes neu'r sefydliad sy'n gweithredu fel y brocer arloesi ar gyfer y sefydliad ac yna'n cyflawni'r gweithgareddau ar gyfer cydweithredu.
53. Mentora – costau refeniw ar gyfer pobl allai ddarparu pob mathau o gymorth i sefydliad a grŵp i helpu iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd eu hunain o fewn cyd-destun gweithgareddau cydweithredu. Mae hwn yn ddull gwahanol o hyfforddi.
54. Hyfforddiant – costau refeniw i helpu partneriaid sy'n cydweithredu i gynnal gwaith hyfforddi na ellir ei ddarparu drwy unrhyw ddull arall. Gallai hyn fod mewn dosbarth ffurfiol neu ystafell ddarlithio ond nid o angenrheidrwydd. Byddai'r pwnc dan sylw a'r canlyniadau a fwriedir wedi eu penderfynu ymlaen llaw drwy asesiad o sgiliau ac adolygiad o ddarpariaethau sydd eisioes ar gael cyn y byddai'r hyfforddiant yn gymwys.
55. Cyfathrebu a dosbarthu – costau refeniw i helpu gyda chyfathrebu'r gweithgareddau cydweithredu arfaethedig; dosbarthu gwybodaeth ymyst cymunedau rhanddeiliaid allanol; cyfathrebu parhaus o fewn a rhwng partneriaid cydweithredu a dosbarthu canlyniadau terfynol y cydweithredu.
56. Gwerthuso – canlyniad pwysig y cydweithredu ymysg cwmnïau bychain yw i ddysgu gwersi a chofnodi profiadau y cyfranogwyr sydd wedi bod yn cyfrannu er mwyn helpu i lunio rhaglenni a phrosiectau yn y dyfodol. Felly mae'r gost o gael gwerthusiad annibynnol, allanol o'r gweithgareddau cydweithredu yn gymwys.
57. Costau uniongyrchol prosiectau penodol sy'n gysylltiedig â chynllun manwl.

DIFFINIADAU

58. Mae "Bach" fel a ddiffiniwyd yn y Ddeddf Ddirprwyedig, gan ganolbwyntio fentrau micro. Bydd o leiaf un o'r rhai sy'n cydweithredu yn fusnes bach, sy'n gweithredu'n bennaf mewn ardal wledig. Gall y rhai eraill sy'n rhan o'r cydweithredu fod yn grwpiau cymunedol neu wirfoddol neu gyrff eraill.
59. Mae "Costau uniongyrchol" yn yr is-fesur hwn yn gostau sy'n codi'n uniongyrchol o weithgareddau'r prosiect yn hytrach nag o astudiaethau paratoadol, bywiocáu neu gydweithredu parhaus. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys costau buddsoddi ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

60. Mae nifer o weithgareddau nad ydynt yn gymwys ar gyfer y cymorth hwn:

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

- Cymorth ar gyfer gweithgareddau y gellir eu darparu trwy ddulliau eraill megis trefniadau presennol ar gyfer datblygu sector
 - Nid yw cymorth ar gyfer cydweithredu ymysg cwmnïau bychain yn y gadwyn gyflenwi o bysgodfeydd a chynnyrch dyframaethu yn gymwys o dan y Cynllun hwn. Bydd yn cael ei ddarparu drwy Gynlluniau y pysgodfeydd.
61. Nid yw datblygu gwefannau sydd wedi'u hanelu at gynnig gwasanaethau archebu ar-lein; prynu a gwerthu gwyliau a llety gwyliau; a gweithgareddau hyrwyddo, marchnata a hysbysebu megis gwyliau thema gyda darparwyr twristiaeth sydd wedi'u henwi yn gymwys.
62. Nid yw gweithgareddau hyrwyddo, marchnata a hysbysebu nad ydynt yn darparu gwybodaeth am dwristiaeth ac yn hyrwyddo'r wlad, y rhanbarth neu'r ardal a'i fod, neu ei fod yn bosib ei fod yn cystadlu â gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau'r sector preifat yn y sector twristiaeth yn gymwys.

COSTAU CYMWYS

63. Gallai cymorth o dan M16.3 o'r CSCDS gynnwys:
- Costau cynnal y cydweithredu (nid holl gostau rhedeg y prosoect ond y costau rhedeg sy'n codi o'r "weithred" o gydweithredu), yn benodol costau cyflogau cydweithredwyr, y rhai sy'n bywiocáu a hwyluswyr, gan gynnwys costau cysylltiedig megis teithio a chynhaliaeth
 - Mapio a dadansoddi bylchau; gan gynnwys costau cysylltiedig megis datblygu costau datblygu TG
 - Costau gweithrediadau penodol (prosiectau) sy'n cael eu cynnal gan y cydlynnydd / rhai sy'n bywiocáu / hwylusydd neu bartner arall yn y gweithgarwch pilot/cydweithredu (yn gysylltiedig â chynllun manwl)
 - Gweithgareddau hyrwyddo (categori o gostau uniongyrchol).

Noder: byddai costau sy'n gysylltiedig â bywiocáu yn golygu recriwtio cyfranogwyr i brosiect a'r rhwydweithio rhyngddynt sy'n angenrheidiol i ddiffinio'r prosiect yn addas a'i gychwyn.

COSTAU ANGHYMWYS

64. Nid yw'r eitemau neu'r mathau canlynol o wariant yn gymwys o dan yr adran hon o'r CSCDS:
- Prynu tir mwy na 10% o gyfanswm gwerth y prosiect
 - Prynu cerbydau i gludo nwyddau (megis lorïau, bysiau, faniau, bysiau mini neu unrhyw fath arall o gerbyd)

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

- Unrhyw waith corfforol ar y safle neu wariant arall a gododd cyn i'r prosiect ddechrau cyn cymeradwyaeth ymlaen llaw gan roddwr y grant
- Gwaith dros dro nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect
- Newid tebyg at ei debyg
- Costau sy'n gysylltiedig â chontract les megis cyfyngiadau'r lesydd, costau ariannu llog, gorbenion a chostau yswirant
- Costau trefnu benthyciadau, TAW a threthi eraill y mae modd eu hadfer gan y buddiolwr, costau gweinyddol a staff neu'r iawndal a delir i drydydd parti ar gyfer difeddu, ac ati.
- Gorbenion sy'n cael eu dyrannu neu eu rhannu ar gyfraddau sy'n fwy na'r cyfraddau ar gyfer costau tebyg a gododd ar gyfer dulliau cyflawni tebyg
- Gwariant tybiannol
- Taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur grefyddol ac/neu wleidyddol
- Dibrisiant, ad-daliadau a diffygion mewn asedau a brynwyd gyda chymorth grant Ewropeaidd
- darpariaethau
- rhwymedigaethau digwyddiadol
- trefniadau wrth gefn
- difidend i randdeiliaid
- costau llog (os nad yw o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol cymeradwy)
- taliadau gwasanaethau sy'n codi o lesioedd cyllid, prynu dros gyfnod a threfniadau credyd
- costau sydd o ganlyniad i ohirio taliadau i gredydwyr
- costau sy'n rhan o ddod â cwmni masnachol i ben
- taliadau ar gyfer pensiynau heb eu hariannu
- iawndal am golli swydd
- dyledion drwg sy'n codi o fenthyciadau i weithwyr, perchnogion, cyfarwyddwyr sy'n bartneriaid, gwarantwyr, rhanddeiliaid neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau fel anrhegion a rhoddion
- diddanu personol (gan gynnwys alcohol)
- ffeiniau a chosbau statudol
- dirywon a iawndal troseddol
- costau cyfreithiol oherwydd ymgyfreitha
- TAW y gellir ei adfer

Gellir gofyn am gyngor gan Yr Uned Rheoli Cynlluniau fesul achos os oes ansicrwydd ynghylch hyn.

MESUR 16.4

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

65. **Cymorth ar gyfer cydweithredu llorweddol a fertigol ymysg gweithredwyr yn y cadwyni cyflenwi a'r marchnadoedd lleol ac i hyrwyddo gweithgareddau mewn cyd-destun lleol sy'n gysylltiedig â datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol.**
66. Nod M16.4 yw helpu i symud 'egin' bartneriaethau'r gadwyn gyflenwi i gam lle maent yn hyderus i fabwysiadu proses gadwyn gyflenwi newydd gan arwain at fwy o fanteision diriaethol ac anniriaethol. Byddai'n cynyddu gallu cynhyrchwyr i gymryd costau allan o'r gadwyn gyflenwi, yn gwella capasiti'r farchnad ac yn sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol.
67. Bydd y thema hon yn cynyddu proffidioldeb a chydnerthedd busnesau bach a chanolig unigol sy'n cymryd rhan yn y camau gweithredu drwy gydweithio llorweddol a fertigol ymysg gweithredwyr y cadwyni cyflenwi ar gyfer sefydlu a datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol. Dylai'r defnydd o'r wybodaeth a gesglir hefyd arwain at wella gwybodaeth a hyder yn y sector yn gyffredinol, a fydd yn helpu i ddatblygu'r sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a bwyd.
68. Bydd yn cefnogi gwaith gyda'r tair Canolfan Diwydiant Bwyd a sefydlwyd i fapio'r gadwyn gyflenwi bwyd yng Nghymru i gynnwys cadwyn gyflenwi gweithgynhyrchu (cynhwysion), a chadwyn gyflenwi lletygarwch, i ystyried diffygion yng nghadwyni cyflenwi'r ddau sector a gweithio gyda chynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr i nodi pa gynhyrchion y gellir eu datblygu a'u marchnata i wneud iawn am y diffygion. Bydd hyn yn cynnwys atgyfeirio i gynlluniau marchnata, arloesi a datblygu busnes fel y gall busnesau fodloni gofynion y marchnadoedd lletygarwch a chynhwysion.
69. Bydd hefyd yn cefnogi gweithgareddau cydweithio a chydweithredu sy'n gysylltiedig â Thwristiaeth Bwyd, yn bennaf er mwyn annog cysylltiadau gwell rhwng y sectorau a chynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio cynhyrchion lleol. Yr amcanion fyddai codi proffil Cymru fel cyrchfan Fwyd, datblygu amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu wedi'u targedu i godi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth am Fwyd a Diod Cymru i'r diwydiant lletygarwch/twristiaeth ac ymwelwyr i Gymru a datblygu mentrau partneriaeth a gynlluniwyd i annog mwy o gydweithio rhwng y sector bwyd a thwristiaeth, i sicrhau dull cyson a llai o ddyblygu.
70. **Beth yw cadwyn gyflenwi "fer"?**
Mae Erthygl 11(1) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014 yn nodi y gellir ond cynnig cymorth i gadwyni cyflenwi sy'n cynnwys un cyfryngwr yn unig rhwng ffermwr/coedwigwr a defnyddiwr. "Cyfryngwr" yw endid sy'n prynu'r cynnyrch gan y ffermwr er mwyn ei werthu wedyn.
71. Byddai manwerthwr yn gyfryngwr. Byddai prosesydd yn gyfryngwr hefyd pe bai'n prynu'r cynnyrch gan y ffermwr ac yn cymryd rheolaeth ohono drwy wneud hynny. Os yw'r ffermwr yn cadw rheolaeth ar y cynnyrch yn ystod y prosesu ac yn penderfynu ar y pris gwerthu, ni fyddai'r prosesydd yn gyfryngwr, dim ond yn darparu gwasanaeth i'r ffermwr.

72. **Beth yw marchnad “leol”?**

Mae Erthygl 11(1) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014 yn nodi'r amodau lle y gellir rhoi cymorth ar gyfer sefydlu a datblygu marchnadoedd lleol. Er mwyn bod yn gymwys am gymorth o dan CSCDS mae'n rhaid i farchnadoedd fod o fewn 50 cilometr i fferm/coedwig y mae'r cynnyrch yn deillio ohono.

73. Bydd y cynllun yn cwmpasu meincnodi hefyd, sef adnodd busnes sy'n galluogi busnesau i adolygu cryfderau a gwendidau eu busnes a'i gymharu â busnesau tebyg yn yr un maes. Bydd yn sicrhau bod data busnesau ffermydd a choedwigaeth yn cael ei gasglu a'i goladu'n gywir, gan sicrhau bod sectorau amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth Cymru yn cael eu meincnodi'n effeithiol. Mae meincnodi yn gallu gwella gallu busnes i gystadlu a goroesi.

74. Mae amcanion y cynllun yn eang a bydd angen trafod a chytuno ar gynigion eich prosiect ymhell ymlaen llaw cyn i chi ddechrau ar y broses ymgeisio.

PWY ALL WNEUD CAIS?

75. Mae'r cynllun yn agored i geisiadau gan bob math o unigolion, busnesau a sefydliadau sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi'r sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth, bwyd a lletygarwch (ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd neu ddyframaeth) a gweithredwyr eraill sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion a blaenoriaethau polisi datblygu gwledig.

76. Gall hyn gynnwys unig fasnachwyr, partneriaethau, cwmnïau cyfyngedig, cyrff cyhoeddus, sefydliadau addysg neu ymchwil, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, Sefydliadau Cynhyrchwyr, grwpiau cynhyrchwyr a chwmnïau cydweithredol.

77. Mae'n rhaid i o leiaf un o'r rhai sy'n rhan o'r cwmni gweithredol fod yn fusnes BBaCh, yn gweithredu'n bennaf mewn ardal wledig ac yn rhan o gadwyn gyflenwi'r sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth, bwyd (ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd neu ddyframaeth) neu lletygarwch; yn ddeiliad coedwigaeth, yn cynnwys cymdeithasau o berchnogion a choetiroedd cymunedol.

78. Ni chaiff ymgeiswyr fod yn fudiadau sydd mewn trafferthion, fel y diffiniwyd yn y canllawiau ar Gymorth Gwladwriaethol ar gyfer achub ac ailstrwythuro (2014/C 249/01).

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

79. Cydweithio llorweddol a fertigol ymysg busnesau a/neu sefydliadau yng nghadwyni cyflenwi'r sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth, bwyd a lletygarwch (ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd neu ddyframaeth) ar gyfer sefydlu a datblygu

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol.

80. Hyrwyddo – costau refeniw i bobl (hyrwyddwyr) a fyddai'n trefnu a hwyluso gweithgareddau cydweithio rhwng busnesau a/neu sefydliadau ledled y cadwyni cyflenwi, yn cynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth.
81. Hwyluso a Gweithredu – costau refeniw i bobl, yn cynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth, a fydd yn rheoli a chyflawni'r gweithgareddau'n uniongyrchol a/neu yn darparu cymorth i fusnesau a/neu sefydliadau a chefnogi gweithgareddau cydweithio. Gall hyn gynnwys y costau yr eir iddynt gan y busnes neu'r sefydliad sy'n gweithredu fel y brocer arloesi ar gyfer sefydlu a chyflawni'r gweithgareddau cydweithio.
82. Mentora – costau refeniw i bobl sy'n gallu darparu pob math o gymorth i sefydliadau a grwpiau i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd eu hunain yng nghyd-destun gweithgareddau cydweithio. Dyma ymagwedd wahanol at hyfforddi.
83. Hyfforddiant – costau refeniw i gefnogi partneriaid cydweithio i gwblhau hyfforddiant na ellir ei ddarparu drwy unrhyw lwybr arall. Gall yr hyfforddiant fod mewn ystafell ddosbarth neu ddarlithfa ffurfiol ond nid o reidrwydd. Bydd y pwnc i'w drafod a'r canlyniad bwriedig wedi'u penderfynu ymlaen llaw gan asesiad o sgiliau a byddai adolygiad o ddarpariaethau sydd ar gael cyn yr hyfforddiant yn gymwys.
84. Cyfathrebu a lledaenu – costau refeniw i gefnogi gwaith cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau cydweithio arfaethedig; lledaenu gwybodaeth i'r cymunedau o randdeiliaid allanol; cyfathrebu'n barhaus rhwng partneriaid cydweithio a lledaenu canlyniadau terfynol y cydweithio.
85. Gwerthuso – canlyniad allweddol y gweithgareddau cydweithio yw dysgu gwersi a chofnodi profiadau'r rhai a fu'n rhan o'r cydweithio i helpu i gynllunio rhaglenni a phrosiectau'r dyfodol. Felly, mae cost cynnal gwerthusiad allanol, annibynnol o'r gweithgareddau cydweithio yn gymwys.
86. Costau uniongyrchol prosiectau penodol sy'n gysylltiedig â chynllun manwl.
87. Gweithgareddau hyrwyddo mewn cyd-destun lleol sy'n ymwneud â datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

88. Mae nifer o weithgareddau nad ydynt yn gymwys am gymorth:
 - cymorth ar gyfer gweithgareddau y gellir eu cyflawni drwy ddulliau eraill fel y trefniadau presennol ar gyfer datblygu sectorau

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

- **nid** yw cymorth ar gyfer cydlynu'r gadwyn gyflenwi mewn perthynas â chynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu yn gymwys o dan y cynllun hwn. Bydd hwnnw'n cael ei ddarparu o dan y cynlluniau pysgodfeydd.

COSTAU CYMWYS

89. Gall cymorth o dan Fesur 16.4 o CSCDS gynnwys:

- costau rhedeg y cydweithio (nid holl gostau rhedeg y prosiect ond costau rhedeg sy'n codi o'r "weithred" o gydweithio) yn arbennig costau cyflogau cydgysylltydd, hyrwyddwyr a hwyluswyr, yn cynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth
- darparu map o'r gadwyn gyflenwi a dadansoddiad o fylchau; yn cynnwys costau cysylltiedig fel costau datblygu TG
- costau gweithrediadau penodol (prosiectau) a wneir gan y cydgysylltydd/ysgogydd/hwylusydd neu bartner arall mewn gweithgarwch cydweithio
- "costau uniongyrchol" yn y cyd-destun hwn yw costau sy'n codi yn uniongyrchol o weithgareddau'r prosiect yn hytrach nag o astudiaethau paratoadol, animeiddio neu gydgysylltu parhaus. Mae'r ddarpariaeth hon yn cwmpasu ond ddim yn gyfyngedig i gostau buddsoddi. **Os ydynt yn weithgareddau a fyddai fel arfer yn cael cefnogaeth o rannau eraill o'r rhaglen, yna mae'n ofynnol i gydymffurfio â lefelau uchaf o gymorth fesul eitem/lefel uchaf o gyllid y mesur neu is-fesur**
- Gweithgareddau hyrwyddo (categori o gostau uniongyrchol, gweler uchod).

D.S. Byddai'r costau sy'n gysylltiedig ag ysgogi yn cynnwys recriwtio'r rheini sy'n cymryd rhan mewn prosiect a'r rhwydweithio y byddai ei angen rhyngddynt i ddiffinio'r prosiect yn ddigonol a rhoi dechrau da iddo.

COSTAU ANGHYMWYS

90. Nid yw'r eitemau na'r mathau isod o wariant yn gymwys o dan yr adran hon o CSCDS:

- prynu tir sydd yn fwy na 10% o werth y prosiect cyfan
- prynu ceir, faniau, beiciau modur, beiciau neu unrhyw ffurf arall o gludiant personol (at ba ddiben bynnag)
- unrhyw waith ffisegol ar safle neu unrhyw wariant arall cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw oddi wrth roddwr y grant
- gwaith dros dro nad yw'n **uniongyrchol** gysylltiedig â chyflawni'r prosiect
- costau cynnal a chadw adeiladau, peiriannau neu gyfarpar sydd gan y

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

sefydliad eisoes

- cyfnewid eitemau am eitemau tebyg
- costau sy'n gysylltiedig â contract lesio megis costau gwarantu sydd gan y lesydd, costau ariannu llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- costau sy'n gysylltiedig â threfnu benthyciadau, TAW a threthi eraill sy'n adenilladwy gan y buddiolwr, costau gweinyddol a chostau staff, neu iawndal a delir i drydydd partion am ddifeddu, etc.
- gorbenion a ddyrennir neu a ddsorenir ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na'r cyfraddau ar gyfer costau tebyg a dynnir drwy ddulliau cymaradwy eraill
- gwariant tybiannol
- taliadau am weithgarwch sy'n grefyddol a/neu'n wleidyddol ei natur
- dibrisiant, amorteiddiad a lleihad mewn gwerth asedau a brynwyd â chymorth grant Ewropeaidd
- darpariadau
- rhwymedigaethau digwyddiadol
- treuliau annisgwyl
- difidendau i gyfranddalwyr
- taliadau llog (oni bai eu bod o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol cymeradwy)
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o lesau cyllid, hurbwrcasu neu drefniadau credyd
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- costau sy'n gysylltiedig â dirwyn cwmni masnachol i ben
- taliadau am bensiynau heb eu cyllido
- iawndal am golli swydd
- dyledion drwg sy'n deillio o fenthyciadau i gyflogeion, perchenogion,artneriaid, cyfarwyddwyr, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau am anrhegion a rhoddion
- adloniant personol (gan gynnwys alcohol)
- dirwyon a chosbau statudol
- trethi statudol (ac eithrio TAW anadferadwy)
- dirwyon ac iawndal troseddol
- treuliau cyfreithiol mewn cysylltiad ag ymgyfreitha
- TAW adenilladwy.

91. Os oes unrhyw ansicrwydd mewn unrhyw achos penodol, gellir cysylltu ag Uned Rheoli'r Cynllun i ofyn am gyngor.

MESUR 16.5

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

92. **Cymorth ar gyfer gwaith ar y cyd a wneir gyda'r nod o liniaru neu addasu i newid yn yr hinsawdd, ac ar gyfer dulliau o gydweithio ar brosiectau amgylcheddol ac arferion amgylcheddol parhaus.**

Gweler y nodiadau cyfarwyddyd ar wahân ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy.

MESUR 16.6

93. **Cymorth ar gyfer cydweithio ymysg gweithredwyr yn y cadwyni cyflenwi er mwyn darparu biomas yn gynaliadwy i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu bwyd ac ynni ac mewn prosesau diwydiannol.**

DISGRIFIADAU A DIFFINIADAU CYFFREDINOL

94. Mae gwaith ymgynghori Llywodraeth Cymru a dadansoddiad SWOT yn ystod datblygu Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 wedi nodi rhai cyfleoedd a galw am biomas, sy'n farchnad anaeddfed gyda dangosyddion o bosibiliadau.
95. Mae'r sector goedwigaeth yng Nghymru yn gymharol fach o gymharu â rhannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd a cymharol ychydig o gnydau ynni y mae ffermydd Cymru yn eu tyfu felly ar lefel Cymru mae'r cyfleoedd wedi'u cyfyngu. Ond mae cyfle amlwg yno, ac ar gyfer busnesau bychain, gallai'r posibilrwydd o farchnad ychwanegol fod yn hwb sylweddol i incwm am gost ychwanegol cymharol isel.
96. Roedd dadansoddiad SWOT hefyd yn nodi cyfleoedd i gynyddu'r posibiliadau yn y farchnad cynlluniau gwresogi o safon uchel yn seiliedig ar ddeunyddiau lleol, y cynnydd yn y galw am gynhyrchu coed fel tanwydd, creu marchnad ar gyfer cynnyrch pren gwerth isel a gwella tryloywder a chysylltiadau yn y gadwyn gyflenwi.
97. Mae Llywodraeth Cymru am annog, o fewn cyd-destun cyffredinol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, datblygu er mwyn profi cysyniadau, adeiladu capasiti gwybodaeth a sefydlu hyfywedd o ran dulliau a thechnolegau.
98. Mae Erthygl 2(e) y Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (Cyfarwyddeb 2009/28/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor) yn cynig y diffiniad canlynol i biomas:
'the biodegradable fraction of products, waste and residues from biological origin from agriculture (including vegetal and animal substances), forestry and related industries...as well as the biodegradable fraction of industrial and municipal waste'.
99. Mae'r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth yn gyflenwyr biomas pwysig, gan ddarparu deunydd crai, megis gweddillion amaethyddol, ar gyfer cynhyrchu bioynni. Mae bioynni yn ganlyniad trosi adnoddau biomas, megis coed, planhigion, gweddillion amaethyddol/coedwigoedd a gwastraff trefol, yn ynni a chlodwyr ynni, gan gynnwys gwres, trydan a thanwydd trafniadaeth.

100. Mae Dogfen Ganllaw y Comisiwn Ewropeaidd ar y Mesur Cydweithredu (Tachwedd 2014) yn nodi bod "European Commission's Guidance Document on the Co-operation Measure (November 2014) says that "biomass used in "food production" would not include biomass which becomes part of the food itself, but rather any other biomass used to aid the production process in some way".
101. Gan fod modd i biomas ail-dyfu, mae'n cael ei ystyried yn ffynhonell ynni adnewyddadwy. Er nad yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn rhoi cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer cynhyrchu biomas a rgyfer bioynni, mae'r Rheoliad Datblygu Gwledig yn cefnogi'r denfydd o ynni adnewyddadwy (e.e. trwy Mesurau adnewyddu megis Mesur 7 – Gwasanaethau Sylfaenol).
102. O dan is-Fesur 16.6 mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau cydweithredu rhwng o leiaf dwy gadwyn gyflenwi ar gyfer darparu biomas yn gynaliadwy i'w ddefnyddio i gynhyrchu bwyd ac ynni a phrosesau diwydiannol, h.y. prosiectau sy'n edrych ar weithio cydweithredol i drefnu y cyflenwad o biomas.
103. Fel y dywed y Comisiwn Ewropeaidd yn ei Ddogfen Ganllaw "The key word in this point is "provision" (as opposed to "production"). The intention behind point 2 (h) of Article 35 (of Regulation EU No.1305/2013) is not to directly influence farmers' production decisions, but rather to help them to work together to organise the supply of biomass resulting from the production decisions which they take anyway".
104. Noder.: Pan fo prosiectau o dan yr is-fesur hwn yn gweithio yn gydweithredol gyda is-fesur 16.1 – bydd Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP), Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Grwpiau Gweithredol yr EIP ddsbarthu canlyniadau eu prosiect, yn benodol drwy'r rhwydwaith EIP.

PWY ALL WNEUD CAIS?

- Mae'n rhaid i o leiaf un o'r rhai sy'n cydweithredu fod yn fusnes BbaCh sy'n:
- Gadwyni cyflenwi biomas i'w ddefnyddio i gynhyrchu bwyd ac ynni a phrosesau diwydiannol.

Gallai eraill sy'n cyd-weithredu fod yn

- unig fasnachwr
- busnesau BbaChau
- partneriaethau
- cyrff y sector cyhoeddus

- cwmnïau cyfyngedig
- perchnogion coedwigoedd, gan gynnwys cymdeithasau o berchnogion a choetiroedd cymunedol sydd â digon o reolaeth o'r tir i gyflawni eu hymrwymadau o dan unrhyw gontract grant; heb gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru neu ardaloedd eraill o goedwigoedd cyhoeddus eraill os nad oes les

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

hirdymor neu gytundeb gyda chymuned, yn yr achos hwnnw y gymuned fydd y buddiolwr

- Sefydliadau addysg neu ymchwil
- Grwpiau cymunedol neu gwirfoddol (mae'n rhaid iddynt fod yn sefydliad cyfreithiol)

105. Ni all ymgeiswyr fod yn ymgymeriadau sydd mewn anawsterau fel a ddiffinnir yn y canllawiau ar Gymorth Gwladwriaethol ar gyfer achub ac ailstrwythuro (2014/C 249/01).

106. Ni chaiff ymgeiswyr fod yn y sector pysgodfeydd neu ddyframaethu (oherwydd bod angen sicrhau cyfatebolrwydd â Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop).

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

107. datblygu dull o gydweithio i hyrwyddo integreiddio fertigol a llorweddol yn yr economi wledig ehangach.

108. Cydweithredu fertigol a llorweddol ymysg y gadwyn gyflenwi ar gyfer darparu biomas i'w ddefnyddio i gynhyrchu bwyd ac ynni a phrosesau diwydiannol.

- Bywiocáu – costau refeniw ar gyfer pobl (bywiocáwyr) a fyddai yn trefnu ac yn hwyluso gweithgareddau cydweithredol ymysg busnesau ac / neu sefydliadau, gan gynnwys costau cysylltiedig megis teithio a chynhaliaeth.
- Hwyluso a Gweithredu – costau refeniw, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth, ar gyfer pobl a fydd yn rheoli ac yn cyflawni gweithgareddau yn uniongyrchol a/neu'n rhoi cymorth i fusnesau a/neu sefydliadau ac yn cefnogi gweithgareddau cydweithio. Gall hynny gynnwys y costau a dynnir gan y busnes neu'r sefydliad sy'n frocer arloesi ar gyfer y sefydliad, a hefyd gostau cyflawni'r gweithgareddau cydweithio.
- Mentora – costau refeniw ar gyfer pobl sy'n gallu cynnig mathau penodol o gymorth i sefydliadau a grwpiau i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd eu hunain yng nghyd-destun gweithgareddau cydweithio. Mae hyn yn wahanol i hyfforddiant.
- Hyfforddiant – costau refeniw i helpu partneriaid sy'n cydweithio i gael hyfforddiant na ellir ei ddarparu mewn unrhyw ffordd arall. Gall hyfforddiant o'r fath gael ei roi mewn lleoliad ffurfiol fel ystafell ddosbarth neu ystafell ddarlithio ond nid yw hynny'n fater o raid. Er mwyn i hyfforddiant fod yn weithgarwch cymwys, byddai'n rhaid i'r pynciau i'w trafod a chanlyniad arfaethedig yr hyfforddiant fod wedi cael eu pennu drwy gynnal asesiad sgiliau, a byddai'n rhaid hefyd fod wedi edrych ar y ddarpariaeth a fyddai ar gael eisoes.
- Cyfathrebu a lledaenu – costau refeniw i helpu gyda gwaith cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau cydweithio arfaethedig; i helpu gyda'r gwaith o lledaenu gwybodaeth ymhlith y rhanddeiliaid allanol; i helpu gyda chyfathrebu o

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

fewn a rhwng sefydliadau'r partneriaid sy'n cydweithio, ac i helpu i ledaenu canlyniadau terfynol y cydweithio.

- Gwerthuso – un o ganlyniadau allweddol y gweithgareddau cydweithio a/neu'r prosiect peilot yw dysgu gwersi a chofnodi profiadau'r rheini sydd wedi bod yn gysylltiedig â nhw er mwyn helpu i lywio rhaglenni a phrosiectau yn y dyfodol. Felly, mae cost gwerthusiad allanol annibynnol o'r prosiect peilot a/neu'r gweithgareddau cydweithio yn gost gymwys.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

109. Mae nifer o weithgareddau nad ydynt yn gymwys i gael cymorth:

- cymorth ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn y busnesau neu'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau cydweithio
- cymorth ar gyfer gweithgareddau y gellir eu cyflawni drwy ddulliau eraill, megis y trefniadau sy'n bodoli eisoes er mwyn datblygu sectorau
- **nid** yw cymorth i gydgyssylltu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu yn gymwys o dan y cynllun hwn. Bydd cymorth o'r fath yn cael ei roi drwy'r cynlluniau ar gyfer pysgodfeydd.

110. Nid yw gweithgareddau cydweithredu i ddatblygu cadwyni cyflenwi ar bofyer biomas i'w defnyddio mewn systemau gwresogi domestig neu fasnachol yn gymwys.

COSTAU CYMWYS

111. Gall cymorth o dan M16.2 CSCDS gynnwys:

- y costau rhedeg sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau cydweithio (nid holl gostau rhedeg y prosiect ond y costau rhedeg sy'n codi o'r "weithred" o gydweithio), yn benodol gost cyflogau cydgysylltwyr, ysgogwyr a hwyluswyr, gan gynnwys costau cysylltiedig megis teithio a chynhaliaeth
- mapio a dadansoddi bylchau; gan gynnwys costau cysylltiedig megis costau datblygu TG
- costau gweithrediadau (prosiectau) penodol yr ymgymerir â hwy gan y cydgysylltydd/ysgogydd/hwylusydd neu unrhyw un arall sy'n bartner mewn prosiect peilot/gweithgaredd cydweithio (sy'n gysylltiedig â chynllun manwl)
- gweithgareddau hyrwyddo (cyfathrebu am weithgareddau'r prosiect).

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

D.S. Byddai costau sy'n gysylltiedig ag ysgogi yn cynnwys recrwtio pobl sy'n cymryd rhan mewn prosiect a'r rhwydweithio sydd ei angen rhyngddynt er mwyn diffinio'r prosiect yn ddigonol a sicrhau ei fod yn dechrau.

COSTAU ANGHYMWYS

112. Nid yw'r eitemau na'r mathau isod o wariant yn gymwys o dan yr adran hon o CSCDS:
- prynu tir sydd yn fwy na 10% o werth y prosiect cyfan
 - prynu ceir, faniau, beiciau modur, beiciau neu unrhyw ffurf arall o gludiant personol (at ba ddiben bynnag)
 - unrhyw waith ffisegol ar safle neu unrhyw wariant arall cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw oddi wrth roddwr y grant
 - gwaith dros dro nad yw'n **uniongyrchol** gysylltiedig â chyflawni'r prosiect
 - costau cynnal a chadw adeiladau, peiriannau neu gyfarpar sydd gan y sefydliad eisoes
 - cyfnewid eitemau am eitemau tebyg
 - costau sy'n gysylltiedig â chontract lesio megis costau gwarantu sydd gan y lesydd, costau ariannu llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
 - costau sy'n gysylltiedig â threfnu benthyciadau, TAW a threthi eraill sy'n adenilladwy gan y buddiolwr, costau gweinyddol a chostau staff, neu iawndal a delir i drydydd partion am ddifeddu, etc.
 - gorbenion a ddyrennir neu a ddosrennir ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na'r cyfraddau ar gyfer costau tebyg a dynnir drwy ddulliau cymaradwy eraill
 - gwariant tybiannol
 - taliadau am weithgarwch sy'n grefyddol a/neu'n wleidyddol ei natur
 - dibrisiant, amorteiddiad a lleihad mewn gwerth asedau a brynwyd â chymorth grant Ewropeaidd
 - darpariadau
 - rhwymedigaethau digwyddiadol
 - treuliau annisgwyl
 - difidendau i gyfranddalwyr
 - taliadau llog (oni bai eu bod o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol cymeradwy)
 - taliadau gwasanaeth sy'n deillio o lesau cyllid, hurbwrcasu neu drefniadau credyd
 - costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
 - costau sy'n gysylltiedig â dirwyn cwmni masnachol i ben
 - taliadau am bensiynau heb eu cyllido

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

- iawndal am golli swydd
- dyledion drwg sy'n deillio o fenthyciadau i gyflogeion, perchenogion, partneriaid, cyfarwyddwyr, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau am anrhegion a rhoddion
- adloniant personol (gan gynnwys alcohol)
- dirwyon a chosbau statudol
- trethi statudol (ac eithrio TAW anadferadwy)
- dirwyon ac iawndal troseddol
- treuliau cyfreithiol mewn cysylltiad ag ymgyfreitha
- TAW adenilladwy.

113. Os oes unrhyw ansicrwydd mewn unrhyw achos penodol, gellir cysylltu ag Uned Rheoli'r Cynllun i ofyn am gyngor.

CYSYLLTIADAU AT DDEDDFWRIAETH ARALL

114. Bydd y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i bob prosiect yn dibynnu ar bwnc y prosiect, fodd bynnag bydd disgwyl i'r ymgeiswyr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth isod, os yn berthnasol:

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Cefn Gwlad 1968 – rhoi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddarparu mynediad i'r cyhoedd a chyfleusterau hamdden ac i bennu is-ddeddfau, gan gynnwys materion sy'n gysylltiedig â iechyd planhigion er enghraifft.
- Deddf Coedwigaeth 1967 – rhoi pwerau i CNC a Gweinidogion Cymru ar amrywiol faterion sy'n gysylltiedig â choedwigaeth.
- Deddf Coedwigaeth 1979 – fel yr uchod ond yn cynnwys pwerau penodol i roi grantiau i CNC.
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 – darparu hawliau mynediad agored.
- Gorchymyn Clefyd Llwyfen yr Isalmaen (Awdurdodau Lleol) 1984 – mesurau rheoli ar gyfer Clefyd Llwyfen yr Isalmaen sy'n cael eu rheoli fel rhywogaethau sy'n destun pryder.
- Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 adran 2(2)
- Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) 1996
- Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth)(Cymru a Lloegr) 1999
- Rheoliadau Deunydd Atgenhedlu Coedwigoedd (Prydain Fawr) 2002
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006
- Deddf Iechyd Planhigion 1967

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

- Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 1994 ('Rheoliadau Cynefinoedd')
- Rheoliadau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Diogelu Coed) (Diwygio) 1988
- Gorchymyn Iechyd Planhigion (Marcio Deunydd Pacio Coed) (Coedwigaeth) 2006
- Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005
- Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrif Allforio) (Coedwigaeth) (Prydain Fawr) 2004
- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd)(Coedwigaeth) 2006
- Rheoliadau Coedwigaeth (Eithriadau o gyfyngiadau cwmpo) 1998
- Rheoliadau Coedwigaeth (Cwmpo Coed) 1979
- Cyfarwyddyd Gweinidogol o dan Adran 1(4) Deddf Coedwigaeth 1967
- Ebrill 1984 Cyfarwyddyd Gweinidogol o dan S1(4) Deddf Coedwigaeth 1967. Awst 1996

MESUR 16.9

115. Cymorth i arallgyfeirio gweithgareddau ffermio i weithgareddau sy'n ymwneud â gofal iechyd, integreiddio cymdeithasol, amaethyddiaeth gyda chefnogaeth y gymuned ac addysg am yr amgylchedd a bwyd.

[I'w agor yn hwyrach]

CYFRADD UCHAF Y GRANT A THROTHWY UCHAF Y GRANT

D.S Mae'r adrannau canlynol yn gymwys i'r Is-Fesurau o dan CSCDS fel y nodwyd:

116. Mae swm y grant yn cynnwys cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus at y prosiect buddsoddi sy'n cynnwys; arian gan yr UE; cyd-gyllido cronfeydd yr UE gan Lywodraeth Cymru; arian gan adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth; cyrff cyhoeddus anadrannol ac awdurdodau lleol; arian gan gyrff llywodraethol a reolir fel y Gwasanaeth Busnesau Bach a'r Loteri Genedlaethol; ac arian o drethi ardrethiannol (ardollau).
117. Os yw cronfeydd cyhoeddus eraill yr UE neu'r DU yn cael eu defnyddio i gynorthwyo gyda chostau prosiect byddant yn cael eu disgowntio yn erbyn y grant a ddyfarnwyd.
118. Trothwy uchaf y grant fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect cydweithio unigol yw **£10,000,000**.

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

119. Trothwy isaf y grant fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect cydweithio unigol yw **£2,400**.
120. Dyma gyfraddau uchaf y grant pan fo gweithgareddau'n cael eu cefnogi ar sail dim Cymorth Gwladwriaethol:
- Hyd at 100% ar gyfer gweithgarwch a gefnogir ar sail dim Cymorth Gwladwriaethol:
- cymorth ar gyfer prif weithgareddau sefydliadau ymchwil
 - cymorth i sefydliadau ymchwil gynnal gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth
 - cymorth i sefydliadau ymchwil gynnal rhai prosiectau cydweithio ym maes Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.
121. Yn y cyd-destun hwn yn unig, mae 'sefydliad ymchwil' yn golygu sefydliadau ymchwil a lledaenu gwybodaeth yn ôl diffiniad Cynllun Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Llywodraeth Cymru (SA.39648) ac yn cynnwys cyfryngwyr arloesedd fel broceriaid arloesi. Mae gan froceriaid arloesi rôl i ledaenu canlyniadau datblygiadau arbrofol neu ymchwil ddiwydiannol yn eang drwy addysgu, cyhoeddi neu drosglwyddo gwybodaeth. Bydd y gweithgareddau'n cyd-fynd â Chynllun Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Llywodraeth Cymru (SA.39648) – Atodlen 1.
122. Hyd at 100% ar gyfer y gweithgareddau canlynol a gefnogir ar sail dim Cymorth Gwladwriaethol:
- cymorth i ddatblygu darpariaethau trafndiaeth gymunedol
 - cymorth ar gyfer buddsoddiadau anghynhyrchiol a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â rheoli cynefinoedd.
123. Hyd at 100% ar gyfer gweithgareddau cydweithio yn y sector amaethyddiaeth o dan yr Is-fesurau canlynol:
- 16.1
 - 16.2
 - 16.3 (ac eithrio datblygu a/neu farchnata gwasanaethau twristiaeth)
 - 16.4
 - 16.6 (ni chaiff biomas ar gyfer cynhyrchu ynni fod yn fwy na'r hyn a ddefnyddir ar y fferm).
124. Hyd at 100% ar gyfer gweithgareddau cydweithio yn y sector coedwigaeth, gan gynnwys paratoi cynlluniau rheoli coedwigoedd neu gynlluniau cyfatebol o dan yr Is-fesurau canlynol:
- 16.1
 - 16.2
 - 16.3 (ac eithrio datblygu a/neu farchnata gwasanaethau twristiaeth)
 - 16.4
 - 16.6 (biomas ar gyfer cynhyrchu ynni a phrosesau diwydiannol).

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

125. Hyd at 50% ar gyfer gweithgareddau cydweithio mewn ardaloedd gwledig o dan yr Is-fesurau canlynol pan fydd ardaloedd gwledig yn elwa o'r cydweithio:

- 16.1
- 16.2 (dim ond yn y sector bwyd – dim gwybodaeth Atodiad 1)
- 16.3 (gan gynnwys datblygu a/neu farchnata gwasanaethau twristiaeth)
- 16.4
- 16.6
- 16.9 (biomas ar gyfer cynhyrchu bwyd ac ynni a phrosesau diwydiannol).

126. Mae cyfradd uchaf y grant ar gyfer costau uniongyrchol (costau buddsoddiad cyfalaf) sy'n deillio o gefnogi prosiect cydweithio o dan CSCDS (ac eithrio Is-fesur 16.5) yn cael ei phennu gan lefel y cymorth ar gyfer gweithgareddau buddsoddi fel a ganlyn:

mewn Rhanbarthau Llai Datblygedig:

- (i) 50% o swm y costau cymwys ar gyfer buddsoddi mewn rhanbarthau lle mae GDP y pen yn is na 45% o gyfartaledd 27 yr UE.
- (ii) 35% o swm y costau cymwys ar gyfer buddsoddi mewn rhanbarthau lle mae GDP y pen rhwng 45% a 60% o gyfartaledd 27 yr UE.
- (iii) 25% o swm y costau cymwys ar gyfer buddsoddi mewn rhanbarthau lle mae GDP y pen yn uwch na 60% o gyfartaledd 27 yr UE.

mewn Ardaloedd Eraill:

- 10% o swm y costau cymwys ar gyfer buddsoddi i fentrau canolig
- 20% o swm y costau cymwys ar gyfer buddsoddi i ficrofentrau a mentrau bach.

Nodyn – rhaid i lefelau mwyaf y cymorth ar gyfer prosiectau buddsoddi mawr gael eu lleihau i'r swm a addaswyd fel y diffiniwyd ym Mhwynt 35.31 yng Nghyllwiau yr Undeb Ewropeaidd ar Gymorth Gwladwriaethol yn y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth ac mewn ardaloedd gwledig (2014/C 204/1).

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

127. Bydd grantiau a ddarperir dan y cynllun hwn yn gydnaws â'r farchnad fewnol dan yr ystyr yn Erthygl 107(3)(c) o'r Cytuniad ac yn cael eu hesemtio o'r gofyniad hysbysu yn Erthygl 108(3) ohono yn unol ag Erthygl 24 o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 702/2014 (OJ L Rhif 193, 1.7.2014, tud.1.) (Rheoliadau Esemptiad Bloc Amaethyddiaeth). Bydd y cynllun yn cydymffurfio'n llawn gyda darpariaethau perthnasol Erthygl 24 o'r Rheoliadau Esemptiad Bloc Amaethyddiaeth.

128. Bydd grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn ar gyfer y gweithgareddau hynny sydd y tu allan i gwmpas y Rheoliadau Esemptiad Bloc Amaethyddiaeth yn

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

gymorth sy'n cydymffurfio yn unol ag Erthyglau 25 i 30 o Reoliad y Comisiwn (EU) rhif 651/2014 (Rheoliad Esemptiad Bloc Cyffredinol). O dan y rheoliad hwn mae'r cynllun canlynol wedi cofrestru Cynllun Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Llywodraeth Cymru (SA.39648). Bydd y cynllun hwn yn cydymffurfio'n llawn â'r darpariaethau a nodwyd yn SA.39648.

129. Bydd grantiau a ddarperir i BBaChau yn y sector amaethyddiaeth yn cydymffurfio'n llawn â darpariaethau perthnasol Pennod 1.1.11 o Ganllawiau yr Undeb Ewropeaidd ar Gymorth Gwladwriaethol yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth ac mewn ardaloedd gwledig 2014 i 2020 (2014/C 204/1).
130. Bydd grantiau a ddarperir i BBaChau yn y sector anamaethyddol yn cydymffurfio'n llawn â darpariaethau perthnasol Pennod 3.10 o Ganllawiau yr Undeb Ewropeaidd ar Gymorth Gwladwriaethol yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth ac mewn ardaloedd gwledig 2014 i 2020 (2014/C 204/1).

THEMÂU TRAWSBYNCIOL

131. Mae'r Rheoliadau sy'n llywodraethu'r Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod rhaid i bob prosiect sy'n cael ei ariannu drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin gynnwys y Themâu Trawsbynciol sef Prif Ffrydio Cyfle Cyfartal a Rhywedd a Datblygu Cynaliadwy. Mae'n rhaid cynnwys y themâu trawsbynciol hyn wrth gynllunio a datblygu Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a'r gweithgarwch a gefnogir drwy'r cronfeydd hyn. Mae hyn yn cynnwys Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.
132. Yn ogystal â'r ddwy thema drawsbynciol sy'n orfodol gan y Comisiwn Ewropeaidd bydd Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol hefyd yn themâu trawsbynciol i raglenni Cymru.
133. Bwriad y themâu trawsbynciol yw ychwanegu gwerth, codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth tra'n sicrhau cymaint o gyfranogiad â phosibl a lliniaru effeithiau andwyol. Dylai hyn helpu gweithrediadau i wneud mwy na chydymffurfio'n unig a datblygu systemau sy'n cefnogi arferion gorau.
134. Mae rhagor o ganllawiau yn:
<http://wefo.gov.wales/publications/guidanceandpublications14-20/crosscutting1/?skip=1&lang=cy>

DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

135. I gael ei ddewis, mae'n rhaid i brosiect, yn ôl yr angen, ddangos sut mae'n bodloni meini prawf craidd y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi:
 - mae'r meini prawf yn cynnwys: Gweddu'n strategol, Cyflawni, agweddau Ariannol a Chydymffurfiaeth

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

- mae'r meini prawf allweddol eraill yn cynnwys: Dangosyddion a Chanlyniadau, Gwerth am Arian, Rheoli Gweithrediadau, Themâu Trawsbynciol, Addasrwydd y Buddsoddiad, Cynaliadwyedd Hirdymor.

GOFYNION ALLWEDDOL

136. Ni fydd prosiect buddsoddi'n para mwy na thair blynedd fel arfer.
137. Y cyfnod hiraf o gymorth ar gyfer prosiect gweithgareddau cydweithio yw saith mlynedd.
138. Ni fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb gymorth grant.
139. Y grant a ofynnir amdano yw isafswm y cyllid llenwi bwllch sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r prosiect.
140. Mae'n rhaid i geisiadau ddangos hefyd eu bod wedi rhoi sylw i'r canlynol:
- mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i dderbyn os oes ei angen
 - mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'u derbyn yn ôl yr angen
 - ar gyfer busnesau sy'n endidau cyfreithiol sy'n bodoli eisoes, rhaid profi hyfywedd economaidd y prosiect a'r busnes, drwy ddarparu cyfrifon ar gyfer y tair blynedd olynol yn union cyn dyddiad y cais a rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod y prosiect.
Bydd yn rhaid i fusnesau newydd ddarparu manylion llawn am gefndir a phrofiad y cyfarwyddwyr ynghyd â thystiolaeth arall sy'n angenrheidiol i ddilysu'r cynllun busnes a'r cynigion prosiect
 - cydymffurfio â Chyfraith y DU a'r UE ar gyfle cyfartal, a dylai prosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol
 - cydymffurfio â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â'r amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a safonau iechyd a diogelwch (i gynnwys cymeradwyaeth Swyddog Iechyd yr Amgylchedd lleol, lle bo'n briodol)
 - sicrhau bod y sgiliau a'r cymwyseddau technegol angenrheidiol ar gael yn y sefydliad sy'n ymgeisio (endid cyfreithiol)
 - sicrhau sgôr 'Rhagorol' neu uwch o dan fframwaith asesu amgylcheddol BREEAM, neu gyfwerth, ar gyfer pob adeilad newydd
 - ceisio sicrhau allyriadau di-garbon ar gyfer pob adeilad newydd o 2011 ymlaen.
141. I gael ei ddewis, mae'n rhaid i brosiect, yn ôl yr angen, ddangos:
- Yr angen am y gweithgarwch
- mae angen yr allbynnau a byddwn yn cyflawni yn erbyn allbynnau'r Mesur
 - mae'n ychwanegu at yn hytrach na disodli/dyblygu gweithgarwch presennol yn ddiangen.

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Yr angen am gyllid

- ni all fynd rhagddo heb gymorth
- nid yw'r costau'n ormodol ar gyfer natur y gweithgarwch
- mae bwlch cyllid neu fethiant yn y farchnad, lle'n gymwys.

Y gallu i gyflenwi

- hyfywedd y busnes
- cydymffurfiaeth gyfreithiol
- hyfywedd ariannol y prosiect a chynaliadwyedd, gan gynnwys strategaeth ymadael
- cymorth ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol
- trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso'r prosiect.

142. Po fwyaf yw pwysigrwydd a chyfraniad buddsoddiad y prosiect at amcanion thematig a strategol priodol, po debycaf yw y bydd yn cael ei argymhell ar gyfer ei ddewis.

SUT MAE GWNEUD CAIS

143. Mae'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd na ddylid dewis prosiectau ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar sail y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bwriedir agor a chau cyfnodau ymgeisio penodol yn achlysurol yn ystod oes y rhaglen, yn ddibynnol ar yr arian sydd ar gael i'w ddyrannu.

Bydd dau gam i'r broses ymgeisio ar gyfer cynlluniau economaidd-gymdeithasol Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Y cam cyntaf fydd Datganiad o Ddiddordeb. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn y cam hwn yn cael eu gwahodd i'r ail gam, sef cyflwyno cais llawn.

144. Bydd pob Datganiad o Ddiddordeb yn cystadlu'n uniongyrchol â'i gilydd, a disgwylir y bydd cryn dipyn o alw am y grant sydd ar gael. Bydd gwahoddiad i fusnesau gyflwyno amlinelliad o'u cynigion ar gyfer buddsoddiad newydd. Bydd sefydliadau trydydd sector a chyrrff eraill fel colegau neu brifysgolion yn cael eu gwahodd i gyflwyno amlinelliad o'u cynigion ar gyfer prosiectau. Bydd y cynigion yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf a fydd yn dangos gwerth disgwylid y buddsoddiad neu brosiect a'r cyfraniad a ddisgwylir tuag at amcanion Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.
145. Bydd manylion y cyfnod(au) Datgan Diddordeb yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys y dyddiadau agor a chau, y gyllideb ddangosol sydd ar gael ar gyfer pob cyfnod ac uchafswm y cynlluniau y disgwylir eu gwahodd i gyflwyno cais llawn. Bydd y meini prawf hefyd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.
146. Bydd y ceisiadau Mynegi Diddordeb yn cael eu sgorio a'u gosod yn eu trefn yn ôl haeddiant yn unol â'r meini prawf a gyhoeddwyd. Bydd y cynigion yn cael eu

dewis yn eu trefn nes bod yr arian sydd ar gael wedi'i ddyrannu neu nes cyrraedd yr uchafswm o ran nifer y prosiectau. Nid oes gwarant y bydd yr holl arian yn cael ei ddyrannu nac y bydd uchafswm nifer y prosiectau yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn.

147. Ceir manylion llawn ynghylch sut i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb yn y Nodyn Cyfarwyddyd ar Ddatganiad o Ddiddordeb, gyda meini prawf penodol i'r cynllun a ffurflen gais.
<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?skip=1&lang=cy>
148. Pan fydd cynnig prosiect yn cael ei ddewis yn ystod y cam cyntaf hwn, bydd yr ymgeisydd yn cael ei wahodd i baratoi a chyflwyno cais llawn i'r Cynllun ar gyfer y prosiect arfaethedig, ynghyd â thystiolaeth ddogfennol megis cynllun datblygu busnes, cyfrifon blaenorol (lle bo'n briodol); rhagamcanion ariannol a llif arian, ac unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn angenrheidiol.
149. Rhaid i'r ceisiadau llawn gael eu cyflwyno drwy borthol WEF0 ar-lein. Byddwn yn darparu canllawiau i bob ymgeisydd.
150. Rhaid i'r ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno yn ystod yr ail gam fod yn gyson â'r cynnig a amlinellwyd yn y Datganiad o Ddiddordeb a gymeradwywyd.
151. Bydd y cais llawn yn cael ei arfarnu'n unol â Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun a'r rheolau ar gymhwysedd. Bydd yn destun arfarniad diwydrwydd dyladwy ac archwiliadau cymhwysedd llawn, a dim ond bryd hynny y gwneir penderfyniad terfynol i gynnig grant neu beidio. Ni ellir gwarantu y caiff prosiect a gynigir ei gymeradwyo ar gyfer grant. Byddwn yn gobeithio cwblhau arfarnu'ch cais llawn cyn pen 90 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais llawn. Efallai y bydd angen cyfnod hirach arnom wrth arfarnu prosiectau cymhleth, neu brosiectau ag iddynt broblemau cymhwysedd. Noder os oes oedi ar eich rhan wrth i chi ymateb i gais am wybodaeth bellach gall hyn ymestyn cyfnod arfarnu'ch cais.
- 152. Ni chewch ddechrau ar unrhyw waith tan i chi dderbyn cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny.**
- 153. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd gan Lywodraeth Cymru a'r CE yr hawl i gyhoeddi enw'ch cwmni, swm y grant a ddyfarnwyd a chrynodeb o'ch prosiect.**
- 154. Gallwch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os dymunwch, ond eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais wedi'i gwblhau'n gywir a bod y wybodaeth a ddarperir i gefnogi'ch prosiect yn gywir.**
155. Pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru'n cydnabod eu bod wedi'i derbyn. Os nad yw'ch prosiect yn gymwys, cewch wybod hyn cyn gynted â phosibl. Os yw'ch cais yn gymwys bydd arfarniad technegol ac ariannol

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

manwl yn cael ei gynnal. Ar ôl cwblhau'r arfarniad, bydd y cymorth ar gyfer eich cais yn cael ei werthuso yn erbyn y graddau y mae'n cyflawni amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, fel y disgrifir uchod.

156. Mae tri chanlyniad posibl:

- (a) Nid yw'ch prosiect yn gymwys ar gyfer y grant. Byddwch yn cael clywed hyn cyn gynted â phosibl.
- (b) Mae'ch prosiect yn gymwys i'w ystyried, ond nid yw'n cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Cewch wybod y rhesymau pam nad oedd eich cais yn llwyddiannus. Gallwch ymgeisio eto gyda'r un prosiect (gan ddiwygio'r cais os dymunwch) – **ar yr amod nad ydych wedi dechrau ar y gwaith.**
- (c) Mae'ch prosiect yn gymwys ac yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Byddwch yn derbyn llythyr cymeradwyo yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad, a gofynnir i chi ei lofnodi fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau ac amodau. Bydd y llythyr hefyd yn eich awdurdodi i ddechrau ar y gwaith.

AMODAU'R GRANT

- 157. Mae CSCDS yn cael ei gwmpasu gan nifer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth berthnasol amrywiol (gweler nodiadau cyfarwyddyd ar wahân). Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynydd weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.
- 158. Mae'r cynnig o grant Cynllun Cydweithio a Datblygu Cadwyni Cyflenwi yn cael ei wneud yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod. **Gallai methu bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ddiddymu eich dyfarniad a/neu adennill symiau sydd eisoes wedi'u talu, neu ostyngiad yn swm y grant sy'n daladwy.**

Amodau:

- 1. Mae'n rhaid derbyn y grant a gynigir o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y llythyr cymeradwyo.
- 2. Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilynol.

Mae'n drosedd gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol.

- 3. Ni chewch ddechrau ar unrhyw waith ar y prosiect cyn derbyn awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru.
- 4. Mae'n rhaid i chi gyflawni unrhyw ymrwymadau cyfreithiol dan gyfraith yr UE a'r DU, gan gynnwys deddfwriaeth hylendid.

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

5. Ni chewch wneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru o flaen llaw.
6. Ni chewch gael gwared ar, drosglwyddo neu werthu unrhyw gyfarpar a/neu adeiladau a brynir gyda chymorth grant heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru o flaen llaw yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect ac am bum mlynedd ar ôl y dyddiad y daw'r prosiect i ben.
7. Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y nodir yn Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun.
8. Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau yn y fformat cywir gyda'r holl ddogfennaeth angenrheidiol. Os na wneir hynny, ni fyddant yn cael eu derbyn a byddant yn cael eu dychwelyd i'r ymgeisydd.
9. Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni allwch newid yr amserlen a'r gwerth y cytunwyd arnynt ar gyfer eich ceisiadau heb ganiatâd ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru o flaen llaw.
10. Mae'n rhaid cyflwyno'r hawliad cyntaf cyn pen **chwe mis** i ddyddiad y llythyr cymeradwyo.

Os nad yw'r hawliad cyntaf yn cael ei wneud o fewn y cyfnod hwn, bydd y cynnig grant yn cael ei derfynu'n awtomatig.

11. Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunir arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni allwch newid hyn heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
12. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad oes unrhyw un o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cais yn cymryd lle eitemau o dan hawliad yswiriant.
13. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad ydych chi wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (o ffynonellau'r UE neu'r DU).
14. Mae'n rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at gyfraniad yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru at ei gyllido.
15. Mae'n rhaid cadw cofnodion sy'n ymwneud â gweithgarwch y busnes a'r gwaith o gyflawni darpariaeth y prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau eraill cysylltiedig fel tendrau cystadleuol neu ddyfynbrisiau, tan 2030.
16. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu'r prosiect. Ar gais, mae'n rhaid i chi ddarparu gwybodaeth iddynt a/neu fynediad i ddogfennaeth wreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

17. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Dylech fod yn ymwybodol, os yw'ch cais yn llwyddiannus, bod gan Lywodraeth Cymru a'r CE yr hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, faint o grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.

18. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais mynegi diddordeb a cheisiadau llawn yn destun yr [Hysbysiad Preifatrwydd](#) . Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus

159. Mae Cyfarwydddebau Caffael y Gymuned Ewropeaidd yn berthnasol i gontractau a gyllidir neu a gyllidir yn rhannol gan Gronfeydd yr UE. Mae'r rheolau caffael llawn yn berthnasol i bob corff cyhoeddus a menter fasnachol yn y sector preifat sy'n derbyn cymorth grant o 50% neu fwy o gyfanswm costau'r prosiect ac eithrio TAW.
160. Efallai na fydd mudiadau'r trydydd sector nad ydynt yn cael eu cyllido na'u goruchwylio gan gyrff y sector cyhoeddus a mentrau masnachol yn y sector preifat sy'n cael cymorth grant sy'n llai na 50% o gyfanswm costau'r prosiect yn dod o dan Gyfarwydddebau Caffael y Gymuned Ewropeaidd, ond mae disgwyl iddynt ddefnyddio arferion teg ac agored yn yr un modd, gan gynnwys tendro cystadleuol, wrth brynu nwyddau neu wasanaethau fel rhan o weithgareddau prosiect sy'n cael cefnogaeth drwy Raglenni a gyllidir gan yr UE.
161. Ceir canllawiau am y gofynion sydd angen i bob ymgeisydd eu dilyn yn Nodiadau Cyfarwyddyd Technegol ar Dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/docs/drah/publications/160704-competitive-tendering-and-public-procurement-technical-guidance-notes-cy.pdf>

TALU'R GRANT

Hawliadau

162. Gallwch gyflwyno hawliadau interim yn ystod cyfnod eich prosiect. Bydd ffurflenni hawlio a nodiadau cyfarwyddyd ar sut i hawlio yn cael eu cyhoeddi ar ôl cadarnhau'r dyfarniad. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi'i wneud a bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy

drosgrwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.

163. Dylid cyflwyno hawliadau terfynol ar gyfer talu grant cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol ar y prosiect. Mae'n rhaid derbyn yr hawliadau terfynol erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf er mwyn i Lywodraeth Cymru allu gwneud y taliad. Gall methu â chyflwyno hawliadau arwain at orfod ad-dalu'r grant sydd wedi'i dalu tan hynny.
164. Yn ystod oes y grant, pan fo hawliadau'n cael eu cyflwyno, efallai y byddant yn cael eu harchwilio i sicrhau bod gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Yn ystod y prosiect, efallai yr ymwelir â noddwr y prosiect a bydd asesiad manwl o'r prosiect yn cael ei gynnal. Gall hyn gynnwys adolygiad o'r holl ddogfennaeth ategol wreiddiol. Bydd rhyddhau'r grant yn amodol ar wneud cynnydd digonol.

Hawliadau anghywir a chosbau

165. Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod pob hawliad a gyflwynir yn gywir yn rhifyddol; ei fod am wariant sydd wedi'i dalu yn unig (mae'r taliad wedi gadael eich cyfrif banc); bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad ar amser.
166. Os yw'r hawliad yn anghywir bydd eich hawliad yn cael ei ostwng i'r swm sy'n gymwys a bydd y grant a fydd yn cael ei dalu'n cael ei gyfrifo ar sail hynny. Fodd bynnag, os yw'r camgymeriad yn fwy na 10% o'r cyfanswm sy'n cael ei hawlio, yna bydd cosb ariannol fel y disgrifir isod.
167. Bydd swm y gwariant cymwys yn cael ei ostwng yn ôl swm y camgymeriad ac felly bydd cyfanswm y grant i'w dalu yn is na'r disgwyl. Bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth gan na ellir cynnwys y grant a gollwyd mewn hawliadau diweddarach.
168. Os oes gennych chi unrhyw amheumon am gymhwysedd unrhyw wariant rhaid i chi gadarnhau hynny **cyn i chi dalu'r costau.**

Troseddau

169. Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (W.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny'n gymwys i CSCDS. Mae enghreifftiau o droseddau'n cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygwr neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

MONITRO PROSIECTAU

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodiadau Cyfarwyddyd

170. Mae'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a bod ei lwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl ei gwblhau. Bydd gofyn i chi ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei gynnydd ac adroddiad terfynol ar ei berfformiad dri mis ar ôl ei gwblhau pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau sydd yn y cais a gymeradwywyd. Pe bai'r prosiect yn methu â bodloni'r targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, heb gymhwysu i gael cymorth grant o dan y cynllun, gall camau gael eu cymryd i adennill y grant sydd wedi'i dalu.
171. Bydd yn ofyniad ar gyfer dyfarnu'r grant bod y cyfarpar sy'n cael ei brynu gyda chymorth grant ac unrhyw adeiladau y telir grant amdanynt, yn cael eu cadw yn eu lleoliad gwreiddiol, yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio at y dibenion a nodwyd yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect.
172. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, arolygu'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod pum mlynedd.

DIWEDD Y CYNLLUN DATBLYGU CADWYNI CYFLENWI A CHYDWEITHIO

173. Mae'n rhaid cyflwyno pob hawliad i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf. Mae'n rhaid cwblhau'r holl weithgarwch prosiect mewn pryd i'r cyfrifon a'r cofnodion gael eu harchwilio ac i hawliadau gael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwn.

Y WEITHDREFN APELIO

174. Os gwrthodir cais, bydd y rhesymau am ei wrthod yn cael eu hegluro'n iawn. Byddwn yn fodlon trafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.
175. Os yw cais yn dal i gael ei wrthod bydd gweithdrefn apelio yn cael ei sefydlu ar ffurf cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i bobl a benodir gan Weinidogion Cymru ac sy'n annibynnol arnynt.

Y WEITHDREFN GWYNO

176. Os ydych yn teimlo nad ydym wedi dilyn y drefn gywir wrth ddelio â'ch cais efallai yr hoffech wneud cwyn yn unol â Pholisi Cwynion Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post neu ar y wefan ar:

http://gov.wales/contact_us/makeacomplaint/complaintspolicy/?skip=1&lang=c
y

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

ATODIAD A

DISGRIFIAD O FLAENORIAETHAU A MEYSYDD FFOCWS

Mae Rheoliad (CE) 1305/2013 yn cyflwyno'r **Amcanion** canlynol:

- meithrin gallu amaethyddiaeth i gystadlu
- sicrhau bod adnoddau naturiol a champau gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy
- datblygu economïau a chymunedau gwledig yn ddaearyddol gytbwys yn cynnwys creu a chynnal swyddi.

Mae gan y CE 6 **Blaenoriaeth** Datblygu Gwledig sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:

- 1) Meithrin proses o drosglwyddo gwybodaeth ac arloesi ym meysydd amaethyddiaeth a choedwigaeth ac mewn ardaloedd gwledig.
- 2) Gwneud pob math o amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol a gwneud ffermydd yn fwy hyfyw.
- 3) Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth.
- 4) Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth.
- 5) Hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau a chefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel sy'n medru gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth.
- 6) Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r Blaenoriaethau hyn wedi'u dosbarthu yn **18 Maes Ffocws**:

Blaenoriaeth 1: Meithrin proses o drosglwyddo gwybodaeth ac arloesi ym meysydd amaethyddiaeth a choedwigaeth ac mewn ardaloedd gwledig
(a) Meithrin arloesi a'r sylfaen wybodaeth mewn ardaloedd gwledig
(b) Cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a choedwigaeth ac ymchwil ac arloesi
(c) Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sector amaethyddiaeth a'r sector coedwigaeth
Blaenoriaeth 2: Gwneud pob math o amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol a gwneud ffermydd yn fwy hyfyw
(a) Hwyluso'r broses o ailstrwythuro ffermydd sy'n wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd sy'n chwarae rhan fach yn y farchnad, ffermydd sy'n canolbwyntio ar y farchnad mewn sectorau penodol a ffermydd y mae angen iddynt arallgyfeirio'n amaethyddol

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: May 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

(b) Creu cyfleoedd i genhedlaeth newydd yn y sector amaethyddol
Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth
(a) Integreiddio cynhyrchwyr cynradd yn well i'r gadwyn fwyd drwy gynlluniau ansawdd, drwy hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau cydadrannol
(b) Helpu i reoli risg ar ffermydd
Blaenoriaeth 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth
(a) Adfer a gwarchod bioamrywiaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd Natura 2000 a ffermydd sydd o werth mawr i natur, a chyflwr tirweddau Ewrop
(b) Gwella'r dulliau a ddefnyddir i reoli dŵr
(c) Gwella dulliau rheoli pridd
Blaenoriaeth 5: Hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau a chefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel sy'n medru gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth
(a) Bod y diwydiant amaethyddol yn defnyddio dŵr yn fwy effeithlon
(b) Bod y diwydiant amaethyddol a'r diwydiant prosesu bwyd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon
(c) Hwyluso cyflenwi a defnyddio ynni adnewyddadwy, is-gynhyrchion, gwastraff, gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio-economi
(d) Lleihau allyriadau ocsid nitrad a methan sy'n deillio o amaethyddiaeth
(e) Meithrin gwaith i ddal a storio carbon ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth
Blaenoriaeth 6: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tloedi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig
(a) Hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach a chreu swyddi
(b) Meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig
(c) Gwella mynediad at dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig, gwella'r defnydd a wneir ohonynt a gwella'u hansawdd.